Gideon: 1100 cc

Y gŵr oedd angen arwydd gan Dduw

Gostyngeiddrwydd / ffyddlondeb / dewrder

Fyddwch chi weithiau yn pendroni beth i'w wneud? A ddylech chi wneud hyn neu'r llall? Mynd adref neu fynd i chwarae? Mae'r stori hon yn sôn am ddyn nad oedd yn sicr a oedd yn cael ei alw gan Dduw ai peidio.

Roedd pobl gwlad Midian yn bobl ddrwg. Roedden nhw'n dwyn bwydydd ac anifeiliaid pobl Israel. Byddai pobl Israel yn dianc i'r mynyddoedd. Yno roedden nhw'n cuddio yn yr ogofâu. Roedd arnyn nhw ofn pobl Midian. Roedden nhw'n gweddïo ar i Dduw ddod i'w helpu.

Roedd ar Gideon ofn pobl Midian. Roedd o, pan oedd o'n blentyn bach, wedi cael llawer o hanesion am Dduw. Un diwrnod, pan oedd Gideon yn dyrnu gwenith yn y caeau, daeth angel ato.

"Mae Duw am i ti arwain y bobl i frwydro yn erbyn pobl Midian," meddai'r angel wrtho. Roedd Gideon wedi dychryn.

"Fedra i ddim," meddai Gideon. "O medri!" meddai'r angel, "mi fydd Duw yn dy helpu."

Doedd Gideon ddim yn hapus o gwbl. Roedd o eisiau bod yn sicr bod Duw yn mynd i'w helpu.

"Os wyt ti eisiau i mi arwain y bobl yn erbyn gwlad Midian, mae'n rhaid i mi gael prawf dy fod yn barod i'm helpu. Rho arwydd i mi," meddai Gideon.

Y noson honno rhoddodd Gideon wlân dafad tu allan i'r ogof. Yn y bore roedd y gwlân yn wlyb o wlith, ond roedd y tir o gwmpas yn sych. Ond doedd Gideon ddim yn sicr eto. Felly y noson honno rhoddodd y gwlân unwaith eto tu allan i'r ogof. Erbyn y bore roedd y gwlân yn sych a'r tir o gwmpas yn wlyb. Roedd Gideon yn sicr erbyn hyn bod Duw yn ei alw.

Casglodd Gideon y gwŷr i gyd. Ond roedd gormod o lawer ohonyn nhw.

"Pwy bynnag sydd ag ofn, fe gewch chi fynd adref," meddai Gideon. Ac fe aeth llawer ohonyn nhw adref. Ond roedd yna ormod o lawer ohonyn nhw o hyd.

"Gwylia," meddai Duw, "pan maen nhw'n yfed dŵr o'r afon.

Mae llawer ohonyn nhw'n yfed y dŵr a'u pennau i lawr. Dydyn nhw ddim yn gwylio a ydi'r gelyn o gwmpas. Anfon nhw adref."

Gwyliodd Gideon nhw'n ofalus. Roedd y rhai oedd yn codi dŵr yn eu dwylo i'w ceg yn barod i wylio oedd y gelyn o gwmpas.

Erbyn hyn, dim ond tri chant o wŷr oedd yn y fyddin. Roedden nhw'n barod i ymosod ar filwyr Midian. Ar ôl iddi nosi anfonodd Gideon ei fyddin o gwmpas pebyll y gelyn. Rhannodd ei wŷr yn dri grŵp. Roedd pob milwr yn cario utgorn, piser gwag a ffagl oddi mewn iddo.

"Cuddiwch y ffagl tu mewn i'r piser a pheidiwch â gwneud dim sŵn nes y bydda i yn dweud," meddai Gideon wrth y milwyr.

Pan oedd Gideon yn barod, torrodd y piser yn deilchion. Chwythodd yr utgorn a gwaeddodd ar ei filwyr. Roedden nhw'n barod i'r frwydr. Dechreuodd y milwyr eraill chwythu eu hutgyrn. Cododd pobl Midian o'u pebyll. Doedden nhw ddim yn gwybod beth oedd yn digwydd.

Yn y tywyllwch doedd milwyr Midian yn gweld dim. O'r sŵn o'u cwmpas roedden nhw'n meddwl fod yna lawer iawn o filwyr yn ymosod arnyn nhw. Roedden nhw'n dechrau ymosod ar eu milwyr eu hunain. Erbyn y bore roedd milwyr Midian wedi dianc. Roedd Gideon a'i filwyr yn hapus iawn.

"Mae'n rhaid i ni droi at Dduw yn awr," meddai Gideon wrth ei bobl. "Mae Duw wedi'n helpu i gael gwared â phobl Midian."

"Ymddangosodd angel yr Arglwydd iddo a dweud wrtho, "'Y mae'r Arglwydd gyda thi, ŵr dewr.'"
Barnwyr 6:12

O Dduw,
diolch am bobl sy'n barod i fentro,
diolch am bobl sy'n sicr o'u taith,
diolch am bobl sy'n barod i weithredu.
Gwna fi'n un ohonyn nhw.
Amen.

Fedrwch chi feddwl am y gwahanol ffyrdd mae Duw yn ein defnyddio?
Ydi o'n gwneud hynny mewn ffyrdd annisgwyl weithiau?